# CLWB PLANT TRWY'R POST

## Pecyn wythnosol 37
## 07/12/20

# Mair a'r angel

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref tra dydyn ni ddim yn gallu cyfarfod.

**Paid â phoeni os na wnei di bopeth.
Gwna yr hyn yr wyt yn ei ffansïo a chael hwyl!**



**Paratowyd y pecyn hwn gan:**
Andy Hughes - Saint y Gymuned, Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon,
Nia Williams - Capel y Drindod Pwllheli, Jennifer Roberts - Eglwys Unedig Jerwsalem Bethesda
gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Mair Roberts, Kathryn Williams, Rachel Hughes,
Greg Leavers a Gwyn Rhydderch

An English version is also available


**Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddosbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd. Cysylltwch ag Ahughes@saintygymuned.org**

# Stori




## Fersiwn Beibl.net

Pan oedd Elisabeth chwe mis yn feichiog, anfonodd Duw yr angel Gabriel i Nasareth, un o drefi Galilea, at ferch ifanc o'r enw Mair. Roedd Mair yn wyryf, ac wedi'i haddo'n wraig i ddyn o'r enw Joseff. Roedd e'n perthyn i deulu y Brenin Dafydd. Dyma'r angel yn mynd ati a'i chyfarch, “Mair, mae Duw wedi dangos ffafr atat ti! Mae'r Arglwydd gyda ti!”



Ond gwnaeth yr angel i Mair deimlo'n ddryslyd iawn. Doedd hi ddim yn deall o gwbl beth roedd yn ei feddwl. Felly dyma'r angel yn dweud wrthi, “Paid bod ofn, Mair. Mae Duw wedi dewis dy fendithio di'n fawr. Rwyt ti'n mynd i fod yn feichiog, a byddi di'n cael mab. Iesu ydy'r enw rwyt i'w roi iddo. Bydd yn ddyn pwysig iawn, a bydd yn cael ei alw'n Fab y Duw Goruchaf. Bydd yr Arglwydd Dduw yn ei osod i eistedd ar orsedd y Brenin Dafydd, a bydd yn teyrnasu dros bobl Jacob am byth. Fydd ei deyrnasiad byth yn dod i ben!”
Ond meddai Mair, “Sut mae'r fath beth yn bosib?”
Dyma'r angel yn esbonio iddi, “Bydd yr Ysbryd Glân yn dod arnat ti, a nerth y Duw Goruchaf yn gofalu amdanat ti. Felly bydd y plentyn fydd yn cael ei eni yn berson sanctaidd – bydd yn cael ei alw yn Fab Duw. Meddylia! Mae hyd yn oed Elisabeth, sy'n perthyn i ti, yn mynd i gael babi er ei bod hi mor hen. Roedd pawb yn gwybod ei bod hi'n methu cael plant, ond mae hi chwe mis yn feichiog! Rwyt ti'n gweld, does dim byd sy'n amhosib i Dduw ei wneud.”
A dyma Mair yn dweud, “Dw i eisiau gwasanaethu'r Arglwydd Dduw. Felly gad i beth rwyt wedi'i ddweud ddod yn wir.” Wedyn dyma'r angel yn ei gadael hi.

*Luc 1:26-38 Beibl.net*



## Fersiwn syml

Roedd yna ferch ifanc o’r enw Mair yn byw yn Nasareth yng Ngalilea. Roedd hi wedi dyweddïo â Joseff, saer lleol. Anfonodd Duw yr angel Gabriel at Mair. “Paid â bod ofn oherwydd mae Duw gyda thi. Rwyt ti yn mynd i gael mab rhaid i ti ei enwi’n Iesu.”
Nid oedd Mair yn deall beth oedd yn digwydd.
“Sut gall hyn ddigwydd i mi oherwydd dydw i ddim wedi priodi eto?” gofynnodd Mair. Dywedodd yn angel wrthi, “Bydd yr Ysbryd Glân yn dod arnat ti. Does dim yn amhosibl i Dduw. Mae Elisabeth dy berthynas hefyd yn mynd i gael plentyn er ei bod yn hen ac yn methu cael plant.”
Dywedodd Mair wrth yr angel, “Dwi’n forwyn i Dduw ac yn barod i wneud yr hyn mae O’n ei ofyni mi ei wneud.”

# Cwestiynau i’w trafod

Ar ôl darllen y stori gyda’ch gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn fel teulu:

1. Sut wyt ti’n cael neges gan rywun?
2. Pa fath o negeseuon fyddi di’n eu derbyn?
3. Sut fath o neges gafodd Mair? Gan bwy?
4. Beth wyt ti’n ei ddysgu am Iesu o’r hanes hwn?






# Gweddi fer

O Dduw, diolch i Ti am yrru Iesu i’r byd yn fabi bach. Diolch i Ti am y babi arbennig yma newidiodd y byd.
Diolch i Ti fod Iesu wedi dod i ddangos dy gariad anhygoel Di i ni.
Amen.

# Stori i'w lliwio


## Mair a'r angel Gabriel

www.lambsongs.co.nz   Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams)   Lluniau: Richard Gunther






Am amser hir iawn, iawn roedd pobl wedi darllen addewidion Duw. Addawodd y byddai un dydd yn anfon ei fab ei hun o'r nefoedd i reoli'r ddaear a dod â gobaith a heddwch i'r byd. Felly disgwyliodd a gweddïodd y bobl.




Roedd merch ifanc, ddibriod o'r enw Mair yn byw yn nhref Nasareth. Roedd hi'n caru Duw â'i holl galon ac roedd yn garedig ac yn dda. Anfonodd Duw yr angel Gabriel i ddweud wrthi mai hi fyddai mam y Gwaredwr roedd O wedi ei addo.




"Paid â bod ofn," meddai Gabriel. "Rwyt ti'n arbennig ac mae Duw wedi dy ddewis di. Bydd yr Ysbryd Glân yn dy gyffwrdd a'r bachgen fyddi di'n ei eni fydd yr Un gafodd ei addo i'r bobl, yr Un maen nhw wedi bod yn aros mor hir amdano. Byddi'n ei alw'n Iesu."



"Ymhen tri mis bydd dy gyfnither, Elisabeth, yn cael bachgen bach, er ei bod hi'n llawer rhy hen i fod yn fam. Gyda Duw does un dim yn amhosibl. Dos i'w gweld hi," meddai'r angel.



"Fe wnaf i bopeth y mae Duw eisiau i mi ei wneud," atebodd Mair a gadawodd ei chartref cyn gynted ag yr oedd modd iddi wneud hynny, i ymweld â'i chyfnither, Elisabeth. Roedd Elisabeth yn feichiog ers chwe mis yn union fel roedd yr angel wedi dweud! Roedd hyn yn wyrth a diolchodd y ddwy ddarpar fam i Dduw.



Roedd Joseff wedi addo priodi Mair un dydd. Roedd yn ddyn da ond doedd o ddim yn gwybod beth i'w wneud am fod Mair yn disgwyl babi ac nid ef oedd y tad. Un noson ymwelodd yr angel Gabriel â Joseff a dywedodd wrtho am beidio â bod ofn.




Dywedodd yr angel wrtho, "Joseff, prioda Mair a gofala amdani. Mae hi'n ferch ifanc, bur sydd wedi cael ei dewis fel rhan o gynllun rhyfeddol Duw i fod yn fam i Waredwr y byd. Ei enw fydd IESU."

# Gweddi Greadigol

## Dwy Law yn Erfyn

Gwna ôl dy law mewn tywod neu peintia dy law a gwna brint ohoni ar bapur. Ysgrifenna'r geiriau ddywedodd Mair wrth Dduw, un ar bob bys.
"Dwi eisiau gwasanaethu'r Arglwydd Dduw."
Neu dalia dy law i fyny, pwyntia at bob bys, un ar y tro a dyweda, "Dwi eisiau gwasanaethu'r Arglwydd Dduw."








## Rhannu'r newyddion da am Iesu

Meddylia am ffrind rwyt ti eisiau dweud wrtho neu wrthi am Iesu.
Gwna i'r siâp person edrych yn debyg i dy ffrind.
Wrth i ti liwio, gofynna i Dduw dy helpu i ddweud wrth dy ffrind mor arbennig ydy Iesu.

## Dolenni



Fideo o'r stori
https://www.youtube.com/watch?v=D3UKAZFyBBk



Fideo o gân yr wythnos
https://youtu.be/GKsz2-OBw9o





Cartŵn o'r stori (Saesneg)
https://www.youtube.com/watch?v=XkEypzmHwCI




# Posau

Faint o bob llun sydd yn y blwch?









## Gair i Mair

Mae'r pethau a ddywedodd yr angel Gabriel wrth Mair isod.

Fedri di eu rhoi yn y drefn gywir?
(Fedri di ailedrych ar y stori ar dudalen 2)

## Anagramau

Mae enwau o'r stori wedi eu cymysgu. Fedri di ail drefnu'r llythrennau i ddarganfod yr enwau?

IRGALBE _ _ _ _ _ _ _

RAMI _ _ _ _

ENATHASR _ _ _ _ _ _ _ _

NIEBRN _ _ _ _ _ _

YDADDF _ _ _ _ _

AMB UWD _ _ _ _ _ _

Bydd yr Arglwydd Dduw yn ei osod i eistedd ar orsedd y Brenin Dafydd.

Iesu ydy'r enw rwyt i'w roi iddo.

"Mae'r Arglwydd gyda ti!"

Fydd ei deyrnasiad byth yn dod i ben!

Bydd yn cael ei alw'n Fab y Duw Goruchaf.

Bydd yn ddyn pwysig iawn.

Mae Duw wedi dewis dy fendithio di'n fawr.

Rwyt ti'n mynd i fod yn feichiog, a byddi di'n cael mab.

# Crefft


## Addurn angel






**I wneud yr angel byddi angen:**

Papur A4 gwyn neu felyn, ffoil, glud, 'glitter,' siswrn, edau wen, pensil, pensiliau lliw




1.Gosoda'r papur A4 ar ffurf tirlun o dy flaen a phlyga fo'n ei hanner. Agora'r papur allan a thorra ar hyd y plyg.





2.Plyga'r ddau ddarn o bapur fel acordion (neu wyntyll).



3.Plyga'r papur drosodd rhyw 5cm o'r top a gwasga fo i lawr yn gadarn.



4.Ailadrodda gam 4 â'r ail ddarn o bapur acordion.





5.Rho lud yn y plyg ac yna gwasga'r rhan fach a'r rhan fawr yn dynn yn ei gilydd. Yn ofalus agora allan y papur sydd wedi ei blygu. Ailadrodda hyn â'r ail ddarn o bapur acordion.



6.Mae corff yr angel a'r adenydd yn barod nawr.



7.Torra ddarn o edau wen, ei phlygu'n hanner a gwneud cwlwm.







8.Gluda ymyl, ochr hir, yr angel a glyna'r edau ynddo.



9.Rho hanner arall yr angel yn sownd yn yr hanner cyntaf gan eu gwasgu'n dynn yn ei gilydd.



10.Yn ofalus agora allan yr angel. Rhwbia lud ar y plygiadau ac ysgeintia 'glitter' drostynt.



11.Gwna lun o ddau gylch. Ar un o'r cylchoedd gwna lun wyneb a'i liwio. Torra'r ddau gylch allan.



12.Gorchuddia'r cylch plaen â glud a'i lynu'n sownd yn yr edau.



13.Glyna'r cylch sydd â'r wyneb arno ar ben y cylch plaen. Gwasga nhw'n dynn yn ei gilydd.



14. Torra stribedi tenau o ffoil.



15. Gorchuddia'r cylch plaen â glud a glyna'r stribedi o ffoil arno i wneud gwallt yr angel.



16.Ychwanega gwpl o stribedi ffoil ar dalcen yr angel.

# Sialensau



## Siâp angel

Beth am wneud siâp angel trwy orwedd ynghanol dail ac agor a chau dy freichiau neu eu trefnu nhw ar ddarn o bapur? Os wyt ti'n mynd am dro ar lan y môr mi fedret ti wneud siâp angel yn y tywod!



## Mentra!

Defnyddiodd Duw y Forwyn Fair a gall dy ddefnyddio di hefyd.

Gwna rywbeth newydd. Dysga sgil newydd. Ffonia ffrind dwyt ti ddim wedi cysylltu â fo/hi ers amser maith. Dyweda mae'n ddrwg gen i am rywbeth ti wedi ei wneud o'i le. Dyweda wrth dri o bobl fod Iesu'n eu caru nhw. Anoga eraill.

Sut fedr Duw dy ddefnyddio yn yr ysgol? Fe allai Duw dy ddefnyddio i fod yn gyfeillgar â pherson sydd angen anogaeth. Fe allai Duw dy ddefnyddio i wahodd person i ddod i'r Ysgol Sul dros Zoom.

Sut allai Duw dy ddefnyddio gartref? Gallai Duw dy ddefnyddio i fod yn garedig gyda dy chwaer neu dy frawd bach. Fe allai Duw dy ddefnyddio i helpu dy rieni pan fyddan nhw'n cael diwrnod anodd.

## Chwilair

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| T | A | NG | E | L | B | R | E | N | I | N | A |
| E | N | Y | T | N | E | L | P | I | NG | TH | W |
| H | F | G | L | Â | N | O | DD | E | F | E | U |
| U | O | LL | A | E | D | Y | L | S | Y | R | D |
| P | N | B | E | A | I | LL | E | U | N | A | LL |
| O | W | D | F | E | TH | G | I | A | I | S | D |
| R | G | Y | Y | G | I | H | R | R | I | A | M |
| I | DD | I | S | R | O | G | B | DD | LL | N | A |
| W | Â | B | B | I | L | O | A | TH | W | A | B |
| G | I | A | R | W | G | F | G | Y | R | N | E |
| I | DD | B | Y | H | A | N | J | O | S | E | FF |
| E | L | DD | D | W | E | U | D | D | I | O | N |

ANGEL
ANFON
ARGLWYDD
BABI
BENDITHIO
BRENIN
DAFYDD
DEALL
DRYSLYD
DUW
DWEUD
GABRIEL
GLÂN
GWIR
GWRAIG
IESU
JOSEFF
MAB
MAIR
NASARETH
NERTH
OFN
PLENTYN
PWYSIG
YSBRYD

# Gêm

## Creu angel

**Byddi angen:**
- Papur a phensil ar gyfer pob chwaraewr
- Dis


**Sut i chwarae:**
- Mae pob chwaraewr yn cael tro i daflu'r dis.
- Pan mae'r chwaraewr yn taflu'r rhif cywir, mae'n tynnu llun y rhan honno o'r angel.
- Os ydy'r chwaraewr yn cael y tafliad mae ei angen, yna mae'n cael taflu eto.
- Os ydy'r chwaraewr yn taflu'r rhif anghywir, yna'r chwaraewr nesaf sy'n cymryd ei dro.
- Rhaid taflu'r dis yn y drefn ganlynol er mwyn ennill rhannau'r angel:
  - 1 = pen
  - 2 = corff
  - 3 = adenydd
  - 4 = breichiau
  - 5 = cylch golau
  - 6 = traed
- Y chwaraewr sy'n taflu 6 gyntaf sy'n cael cychwyn.
- Y chwaraewr sy'n gorffen llun yr angel gyntaf sy'n ennill.




# Canu

Dolig ddaeth, dewch i ninnau ddathlu,
Dolig ddaeth, Iesu yn y crud;
Dolig ddaeth, gwrand'wch bawb a chredu
Anfonodd Duw Waredwr byd.

Mae'n amser moli'r Iesu
- daeth yr angel lawr at Mair.
Mae'n amser moli'r Iesu
– plyga'r doethion yn y gwair.
Mae'n amser moli'r Iesu
– crêd bugeiliaid yn y Gair.
A chlywch y côr angylion fry
Yn canu clod i'n Harglwydd ni.



Oes lle i gariad Iesu
yn ein bywyd prysur ni?
Fel Mab i Dduw fe ddaeth
o'r Nef yn ffrind i ti a fi;
Rhown groeso iti Iesu'r
'Dolig yma atom ni
Ac fel y côr angylion fry
Fe ganwn glod i'n Harglwydd ni.

Hawlfraint 2004 Greg Leavers Cyf. Dafydd Timothy

Gwyliwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar https://youtu.be/GKsz2-OBw9o

Os hoffech chi gerddoriaeth (hen nodiant) cysylltwch ag Andy Hughes - ahughes@saintygymuned.org